# Y cylch rheoli coetiroedd

## Casglu hadau

Mae hadau yn cael eu casglu o casglu o coed, yn coed, yn barod i'w plannu.



## Coed ifanc

Mae'r hadau yn cael eu plannu mewn meithrinfa ac ar ôl dwy neu dair blynedd, mae'r coed ifanc yn barod i'w plannu allan.



## Cynllunydd coedwig

Mae cynllunydd coedwig yn defnyddio mapiau i gynllunio ble fydd y coed yn cael eu plannu.



## Paratoi'r tir

Weithiau, defnyddir peiriannau mawr i baratoi'r tir yn barod ar gyfer plannu'r coed ifanc.



## Plannu coed ifanc

Mae'r coed ifanc yn cael eu plannu gan ddefnyddio rhaw neu beiriant.



## Gwarchod coed ifanc

Unwaith y bydd y coed ifanc yn dechrau tyfu, mae angen eu gwarchod rhag chwyn sy'n tyfu o'u cwmpas a rhag anifeiliaid, a allai eu bwyta.



## Teneuo coed

Wedi tua 20 mlynedd, bydd angen torri rhai o'r coed er mwyn gadael mwy o olau i mewn. Teneuo yw'r term am hyn.



## Cynhaeafu

70 i 100 mlynedd yn ddiweddarach, gellir cwympo’r coed gan ddefnyddio llifiau cadwyn neu gyda pheiriant cynaeafu.



## Symud coed

Mae’r coed yn cael eu symud o’r goedwig gan gerbydau symud coed.



## Melin lifio

Mae’r coed yn cael eu cludo i felin lifio er mwyn cael eu torri.




## Cynnyrch coed

Mae’r coed yna yn cael eu torri i feintiau gwahanol ar gyfer creu cynnyrch.



## Coetiroedd hynafol a hen goed

Os nad yw’r coed yn cael eu cwympo, gallant dyfu’n hen goed. Mae’r goeden hon dros dri chan mlwydd oed.

